**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**DYDD MAWRTH, 7 MAI 2019**

Cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol o Gyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Mawrth 7 Mai, 2019

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Paul Cunningham (Cadeirydd sy'n Ymddeol)**
Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**
Cynghorwyr: Ray Hughes, Richard Lloyd, Hilary McGuill a Tony Sharps

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth); Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd; Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd; Swyddog Gwasanaethau Democrataidd; a'r Cynghorydd y Parch Brian Harvey i roi gweddi;

Ar gyfer cofnod rhif 6
Lefftenant-Cyrnol Mark Powell a Janette Williams (Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog dros Ogledd-ddwyrain Cymru)

## 1. DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

## 2. ADOLYGIAD Y CADEIRYDD O FLWYDDYN 2018/19

Fel y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, cyflwynodd y Cynghorydd Paul Cunningham ei adolygiad o'r flwyddyn pan gafodd ef a'i Gymhares Mrs Joan Cunningham yr anrhydedd o gynrychioli Sir y Fflint mewn dros 300 o ddigwyddiadau dinesig. Ymysg yr uchafbwyntiau'r oedd Diwrnod Lluoedd Arfog Gogledd Cymru, Cynllun Cyfnewid Ieuenctid Japan (y dymunai iddo barhau) a digwyddiadau elusennol ag awdurdodau cyfagos. Yn ogystal, croesawodd yr ymweliadau â Neuadd y Sir gan lawer o ysgolion a chlybiau ieuenctid lleol, felly hefyd y cymorth a gafwyd yn ystod Wythnos Fusnes Sir y Fflint gan y Cynghorydd Derek Butler, Kate Catherall a'r Arglwydd Barry Jones.

Diolchodd y Cynghorydd Cunningham i bawb am ei haelioni yn helpu i godi bron £14,500 yn bennaf i'r elusennau a ddewiswyd ganddo, Macmillan Cancer Support a Thŷ'r Eos, gyda'r gweddill yn cael ei rannu ymysg sefydliadau lleol.

I gloi, diolchodd i bawb am fod yn gefn iddo yn ystod ei flwyddyn yn y swydd, a diolchodd yn bersonol i'r Prif Weithredwr, y Cynghorydd Aaron Shotton fel Arweinydd y Cyngor, Tîm y Prif Swyddogion a gweithwyr y Cyngor. Diolchodd hefyd i'w gyd Aelodau am roi iddo'r cyfle i wasanaethu fel Cadeirydd ac i dîm y Gwasanaethau Aelodau a Dinesig a'i Gaplan y Cynghorydd a'r Parch Brian Harvey am eu holl gefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Talodd deyrnged i'r Is-gadeirydd am ei chefnogaeth gan ddymuno'n dda iddi yn ei rôl newydd, ac i'w wraig Joan am ei chyfraniad fel Cymhares yn ystod y flwyddyn.

Ar ran y swyddogion, diolchodd y Prif Weithredwr i'r Cynghorydd Cunningham a Mrs Cunningham am eu gwaith yn cynrychioli'r Cyngor. Ategwyd hyn gan nifer o'r Aelodau yn ystod y cyfarfod.

## 3. ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2019/20, ARWISGO CADWYN Y SWYDD A LLOFNODI'R DATGANIAD DERBYN Y SWYDD

Cynigiodd y Cynghorydd Carol Ellis ac eiliodd y Cynghorydd Ian Roberts y dylid ethol y Cynghorydd Marion Bateman yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019/20. Ni chafwyd dim enwebiadau eraill. I gefnogi'r cynnig, talwyd teyrnged i gyfraniadau'r Cynghorydd Bateman i amrywiol bwyllgorau a'i hymrwymiad i faterion lleol.

Diolchodd y Cynghorydd Bateman i'r Aelodau am ei hethol yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn nesaf a oedd yn anrhydedd iddi. Llongyfarchodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol a'i Gymhares ar flwyddyn lwyddiannus.

**PENDERFYNWYD:**

Ethol y Cynghorydd Marion Bateman yn Gadeirydd ar y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019/20.

Arwisgwyd y Cynghorydd Bateman â Chadwyn y Swydd gan y Cadeirydd a oedd yn ymddeol a llofnododd ei Datganiad yn Derbyn y Swydd ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr.

(Bryd hynny, cadeiriodd y Cynghorydd Bateman weddill y cyfarfod.)

Yna cyflwynodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Cunningham ei Fathodyn Swydd Cadeirydd ymddeoledig a'i Gymhares Mrs Joan Cunningham gyda'i Bathodyn Swydd ymddeoledig. Arwisgwyd Cymar y Cadeirydd, y Cynghorydd Haydn Bateman â Chadwyn y Swydd.

4. **PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2019/20, ARWISGO CADWYN Y SWYDD A LLOFNODI'R DATGANIAD DERBYN Y SWYDD**

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin y dylid penodi'r Cynghorydd Joe Johnson yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019/20. Ni chafwyd dim enwebiadau eraill. I gefnogi'r cynnig, talwyd teyrnged i waith elusennol y Cynghorydd Johnson ac i'w gefnogaeth i achosion lleol.

Diolchodd y Cynghorydd Johnson i'r Aelodau a llongyfarchodd y Cadeirydd gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at weithio â hi y flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Joe Johnson yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019/20.

Arwisgwyd y Cynghorydd Johnson â Chadwyn y Swydd gan y Cadeirydd a llofnododd y Datganiad yn Derbyn y Swydd ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr. Arwisgwyd Cymhares y Cynghorydd Johnson, Mrs Sue Johnson, â Chadwyn ei Swydd.

5. **AMRYWIO TREFN Y CYFARFOD**

Dywedodd y Cadeirydd y ceid newid bychan yn nhrefn y cyfarfod er mwyn dwyn ymlaen eitem 10 ar yr agenda ar Gyfamod y Lluoedd Arfog. Byddai gweddill yr eitemau yn cael eu hystyried yn y drefn y maent ar yr agenda.

6. **ADNEWYDDU YMRWYMIAD CYNGOR SIR Y FFLINT I GYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Lefftenant-Cyrnol Mark Powell a Janette Williams (Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog dros Ogledd-ddwyrain Cymru) i adnewyddu ymrwymiad y Cyngor i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog drwy ail-lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog a lofnodwyd yn wreiddiol yn 2013. Cyflwynwyd sleidiau a amlinellai ddiben y Cyfamod ynghyd â chyflawniadau'r Cyngor a'i uchelgeisiau i'r dyfodol.

Fel Hyrwyddwr Lluoedd Arfog y Cyngor, cynigiodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin y dylid ail-lofnodi'r Cyfamod i ail-gadarnhau ymrwymiad y Cyngor i sicrhau na ddylai aelodau'r gymuned Lluoedd Arfog gael eu rhoi dan anfantais annheg wrth ddarparu gwasanaethau ac y dylid rhoi iddi ystyriaeth arbennig lle bo angen. Mae'r ymrwymiad hwn yn cydnabod gwerth personél sydd ar wasanaeth, yn filwyr rheolaidd neu wrth gefn, yn gyn-filwyr a theuluoedd milwrol am eu cyfraniadau i'r wlad. Mae'r grŵp llywio wedi cael cryn lwyddiant yn hyrwyddo'r Cyfamod, cymaint felly fel bod y Cyngor wedi ennill y Wobr Arian yng Nghynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn. Diolchodd y Cynghorydd Dunbobbin i'r holl swyddogion dan sylw, yn enwedig Janette Williams a Stephen Townley. Eiliodd y Cynghorydd Joe Johnson y cynnig.

Llofnodwyd y Cyfamod yn ffurfiol gan y Lefftenant-Cyrnol Powell a'r Cynghorydd Dunbobbin.

Ar ran Cadlywydd y Frigâd, diolchodd y Lefftenant-Cyrnol Powell i'r Cyngor am ei gefnogaeth a werthfawrogwyd yn fawr.

Cymerodd y Cynghorydd Glyn Banks y cyfle i dalu teyrnged i bersonél y Lluoedd Arfog, ddoe a heddiw, yn ogystal ag i bawb a fu'n gweithio ar y Cyfamod, yn enwedig y Cynghorydd Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

Adnewyddu ymrwymiad y Cyngor i'r gymuned Lluoedd Arfog drwy ail-lofnodi'r Cyfamod.

## 7. ETHOL ARWEINYDD Y CYNGOR

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Cunningham ac eiliodd y Cynghorydd Neville Phillips y dylid penodi'r Cynghorydd Ian Roberts yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019/20. Ni chafwyd dim enwebiadau eraill. I gefnogi'r cynnig, talwyd teyrnged i gyflawniadau'r Cynghorydd Roberts mewn llywodraeth leol a'i ymrwymiad i gyflwyno gwasanaethau o ansawdd i drigolion Sir y Fflint.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Ian Roberts yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019/20.

## 8. YR ARWEINYDD I BENODI'R CABINET

Diolchodd y Cynghorydd Ian Roberts i'r Aelodau am ei ethol yn Arweinydd ar y Cyngor a oedd yn anrhydedd gwirioneddol iddo. Yn unol â'r Cyfansoddiad, cyflwynodd ei ddewis o Gynghorwyr i wasanaethu ar y Cabinet. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sean Bibby a ddymunodd y gorau i'r Cynghorydd Roberts a'r Cabinet yn y flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r dewis o Gynghorwyr i wasanaethu ar y Cabinet a'u portffolios fel isod,

| **Aelod Cabinet** | **Portffolio** |
|---|---|
| Ian Roberts | Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Ieuenctid |
| Carolyn Thomas | Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Stryd |
| Glyn Banks | Aelod Cabinet dros Gyllid |
| Chris Bithell | Aelod Cabinet dros Gynllunio |
| Derek Butler | Aelod Cabinet dros Ddatblygu Economaidd |
| Dave Hughes | Aelod Cabinet dros Dai |

| | |
|---|---|
| Christine Jones | Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Billy Mullin | Aelod Cabinet dros Reoli Corfforaethol |

**9. MATERION CYFANSODDIADOL: PWYLLGORAU A CHYRFF MEWNOL**

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad y Prif Swyddog (Llywodraethu) a oedd yn ymdrin â materion yr oedd gofyn gwneud penderfyniad arnynt yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir yn unol â Rheol 1.1 (vii) – (xiv) o Weithdrefnau'r Cyngor. Rhannwyd yr adroddiad yn adrannau, gyda phob un yn delio ag un penderfyniad yr oedd angen ei wneud a'r materion perthnasol i'w hystyried. Trafodwyd a phleidleisiwyd ar bob adran yn ei thro.

**(i) Penodi Pwyllgorau**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cyfansoddiad yn darparu ar gyfer penodi'r canlynol: Pwyllgor Archwilio; Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd; Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd; Cydbwyllgor Llywodraethu (dros Bensiynau); Pwyllgor Trwyddedu; Pwyllgor Cynllunio; Pwyllgor Safonau; a'r chwe Phwyllgor Trosolwg a Chraffu. Roedd angen penodi'r Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu hefyd fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol.

Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom am eglurhad ynglŷn â'r angen i benodi Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu pan oedd y Pwyllgor Safonau eisoes wedi'i sefydlu. Dywedodd y Prif Swyddog, er bod y Pwyllgor Safonau'n ystyried unrhyw achosion o gynghorwyr yn torri'r Cod Ymddygiad, roedd yn ofynnol sefydlu pwyllgor ar wahân i ystyried materion disgyblu yn ymwneud â swyddogion, yn benodol y swyddogion statudol a enwyd fel y nodir yn y ddeddfwriaeth. Gofynnodd y Cynghorydd Heesom am fanylion y swyddogion y byddai hyn yn berthnasol iddynt. Cytunodd y Prif Swyddog i gyflenwi enw'r swyddogion yr oedd eu swyddi wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Chris Bithell y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad, ac eiliodd y Cynghorydd Ian Roberts.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cyngor yn penodi'r Pwyllgorau canlynol:

Pwyllgor Archwilio
Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd
Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd
Cydbwyllgor Llywodraethu (dros Bensiynau)
Pwyllgor Trwyddedu
Pwyllgor Cynllunio
Pwyllgor Safonau
Y chwe Phwyllgor Trosolwg a Chraffu a restrir ym mharagraff 1.01
Pwyllgor Cwynion (penodwyd ar 9 Ebrill 2019)
Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

**(ii) <u>Pennu maint Pwyllgorau</u>**

Eglurodd y Prif Swyddog fod angen penderfynu ar faint pob pwyllgor yn y Cyfarfod Blynyddol. Roedd manylion y ddarpariaeth ar gyfer maint y Pwyllgorau i'w gweld yn yr adroddiad, gan gynnwys argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio i gynyddu ei faint i ganiatáu derbyn aelod lleyg ychwanegol.

Wrth gyfeirio at bwysigrwydd y Pwyllgor Archwilio, galwodd y Cynghorydd Heesom am roi ystyriaeth bellach i faint ei aelodaeth i gynnwys cynrychiolaeth ehangach ymysg yr Aelodau, yn enwedig os ceid cynnydd yn nifer yr aelodau lleyg. Gofynnodd a fyddai'r Arweinydd yn ystyried gohirio penderfyniad ar y pwyllgor penodol hwnnw er mwyn caniatáu amser i drafod ymhellach.

Eglurodd y Prif Swyddog y byddai penderfyniad o'r fath yn arwain at ohirio cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar yr eitem yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Mehefin.

O ran y cyfyngiadau deddfwriaethol ar aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio, tynnodd y Cynghorydd Mike Peers sylw at y rheolau ar gynrychiolaeth wardiau Aelodau amryfal fel y nodir yn adran Cydbwysedd Gwleidyddol yr adroddiad.

Mewn ymateb i'r Cynghorydd Heesom, cydnabu'r Cynghorydd Roberts fanteision cael aelodau lleyg yn gwasanaethu ar Bwyllgorau a chynigiodd fod nifer y cynghorwyr ar y Pwyllgor Archwilio yn aros fel y mae a'u bod yn dechrau'r broses o recriwtio aelod lleyg ychwanegol. Cynigiodd y dylid ystyried awgrym y Cynghorydd Heesom fel rhan o adolygiad ehangach o'r Pwyllgorau (gan gynnwys maint aelodaeth) a gynhelir yn ystod y flwyddyn, gyda'r argymhellion a wna Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor. Eiliodd y Cynghorydd Carolyn Thomas hyn.

Gofynnodd y Prif Swyddog am eglurhad a oedd awgrym y Cynghorydd Heesom yn gynnig ffurfiol ac a oedd yn fodlon â'r ymateb a gafwyd gan y Cynghorydd Roberts.

Dywedodd y Cynghorydd Heesom, er ei fod yn gwerthfawrogi'r ymateb, na werthfawrogwyd gwerth y Pwyllgor Archwilio yn ddigonol a chynigiodd y dylai ei gynnig gael sylw ar frys heb oedi'r broses o recriwtio am ail aelod lleyg. Eiliodd y Cynghorydd Carol Ellis hyn.

Dywedodd y Prif Swyddog mai gwelliant y Cynghorydd Roberts, a gynigiwyd ac a eiliwyd yn ffurfiol, yn awr oedd y Cynnig o sylwedd. O'i roi i bleidlais, fe'i derbyniwyd.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Y dylai maint pob pwyllgor fod fel y mae'n cael ei ddatgan ym mharagraff 1.04 o'r adroddiad a bod Aelod lleyg ychwanegol yn cael ei recriwtio i'r Pwyllgor Archwilio fel y nodir yn yr adroddiad; a

(b) Bod adolygiad o bwyllgorau'n cael ei gynnal yn y 12 mis nesaf gan gynnwys nifer yr Aelodau etholedig a'r aelodau lleyg ar aelodaeth y Pwyllgor Archwilio.

**(iii) <u>Cylch Gorchwyl Pwyllgorau</u>**

Esboniodd y Prif Swyddog fod gofyn i'r Cyfarfod Blynyddol benderfynu ar gylch gorchwyl y pwyllgorau a benodai. Roedd hyn yn cynnwys y cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgorau cyfredol fel y nodir yn y Cyfansoddiad a'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Cwynion y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol.

Cynigiodd y Cynghorydd Chris Bithell y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad, ac eiliodd y Cynghorydd Glyn Banks.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Cymeradwyo'r cylch gorchwyl ar gyfer pob Pwyllgor yn y Cyfansoddiad yn ogystal â'r Pwyllgor Cwynion a benodwyd yn y cyfarfod diwethaf a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu fel y nodir yn yr adroddiad.

**(iv) <u>Cydbwysedd Gwleidyddol</u>**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod gofyn i'r Cyngor, yn y Cyfarfod Blynyddol, neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny, benderfynu ar ddyraniad y seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r Rheolau Cydbwysedd Gwleidyddol a gynhwysir yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a'r Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 fel y'u diwygiwyd.

Ceir 179 o seddi i gyd ar gyfer Cynghorwyr ar draws yr holl bwyllgorau ar sail aelodaeth gyfredol y grwpiau. Dangoswyd hawl pob grŵp i seddi yn y daenlen ddiwygiedig a gylchredwyd a oedd yn adlewyrchu'r newidiadau ym maint grwpiau ers cyhoeddi'r adroddiad. Roedd y cyfrifiadau seddi cydbwysedd gwleidyddol a gyflwynwyd i'w hystyried yn un o nifer o atebion posibl a chynhwysant ddarpariaeth i'r Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu gael cynrychiolaeth o bob grŵp gwleidyddol.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad, ac eiliodd y Cynghorydd Carolyn Thomas.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Dyrannu'r seddi yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol (a'r rheolau ar aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio) fel y nodir yn y daenlen ddiwygiedig.

**(v) <u>Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Sefydlog</u>**

Esboniodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod Cadeiryddion Pwyllgorau yn cael eu penodi gan wahanol gyrff, a bod cyfyngiadau ynghlwm wrth rai ohonynt. Roedd y tabl ym mharagraff 1.20 o'r adroddiad yn amlinellu pa gorff wnaeth benodi pa Gadeirydd a pha gyfyngiadau (os o gwbl) oedd yn berthnasol. Oherwydd y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol y byddai'r Pwyllgor Cwynion yn penodi ei Gadeirydd ei hun, tybiwyd y byddai'r un peth yn digwydd yn y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts y canlynol, ac eiliodd y Cynghorydd Carolyn Thomas.

- Penodi'r Cynghorydd Wisinger yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Cynllunio;
- Penodi'r Cynghorydd Aaron Shotton yn Gadeirydd ar Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd;
- Penodi'r Cynghorydd Ted Palmer yn Gadeirydd ar Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd;
- Penodi'r Cynghorydd Sharps yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Trwyddedu.

Cynigiodd y Cynghorydd Patrick Heesom welliant fod yr Arweinydd yn ystyried gohirio'r broses o benodi Cadeirydd Cronfa Bensiynau Clwyd er mwyn cael amser i ystyried ymhellach a'i drafod eto yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor. Eiliodd y Cynghorydd Helen Brown hyn.

Er amlygu rôl allweddol Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, ni chredai'r Cynghorydd Roberts fod hwn yn rheswm digonol i ohirio.

Cynigiodd y Cynghorydd Mike Peers welliant pellach fod y Cynghorydd Haydn Bateman yn cael ei benodi yn Gadeirydd ar Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, pwyllgor yr oedd wedi gwasanaethu arno ers nifer o flynyddoedd ac y byddai hwn yn gynnydd naturiol o'i rôl fel Is-gadeirydd. Eiliodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson y gwelliant hwn.

Tynnodd y Cynghorydd Heesom ei gynnig yn ôl.

Y gwelliant gan y Cynghorydd Peers oedd y Cynnig o sylwedd wedyn. Gofynnodd am bleidlais wedi'i chofnodi a chododd y deg Aelod angenrheidiol ar eu traed i'w gefnogi.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Bithell at y daenlen ar gydbwysedd gwleidyddol, lle nad oedd y grŵp Annibynnol (yr oedd y Cynghorydd Bateman yn perthyn iddo) wedi cael yr un sedd ar Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd. Dywedodd y Prif Swyddog fod grwpiau'n penderfynu ar eu henwebiadau eu hunain i bwyllgorau ac y byddai grwpiau eraill o bosibl yn dymuno ystyried dyrannu sedd i'r grŵp Annibynnol er mwyn i'r Cynghorydd Bateman gymryd swydd y Cadeirydd.

O'i roi i bleidlais, methodd gwelliant y Cynghorydd Peers fel a ganlyn:

**O blaid y gwelliant:**

Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sian Braun, Helen Brown, Clive Carver, Bob Connah, Jean Davies, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Rosetta Dolphin, Carol Ellis, Veronica Gay, George Hardcastle, Patrick Heesom, Dennis Hutchinson, Rita Johnson, Richard Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Dave Mackie, Mike Peers, Ralph Small, Owen Thomas, David Williams ac Arnold Woolley

**Yn erbyn y gwelliant:**

Cynghorwyr: Glyn Banks, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, Geoff Collett, David Cox, Paul Cunningham, Ron Davies, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, David Evans, David Healey, Gladys Healey, Cindy Hinds,

Dave Hughes, Kevin Hughes, Joe Johnson, Paul Johnson, Christine Jones, Mike Lowe, Billy Mullin, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Mike Reece, Ian Roberts, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ian Smith, Carolyn Thomas, Andy Williams a David Wisinger

**Yn ymatal:**
Cynghorwyr: Chris Dolphin, Mared Eastwood, Tudor Jones a Neville Phillips

Rhoddwyd y Cynnig o sylwedd, fel y'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Ian Roberts, i bleidlais ac fe'i derbyniwyd.

Rhoddwyd i bleidlais hefyd yr argymhelliad i'r Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu benodi eu Cadeiryddion eu hunain o blith eu haelodaeth, ac fe'i derbyniwyd.

Eglurodd y Prif Swyddog fod cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cael eu dewis gan y grwpiau gwleidyddol ar sail cryfder yr amrywiol grwpiau ac a oedd â seddi ar y Cabinet. Dyrannwyd y swyddi cadeiryddion i grwpiau a oedd â lle ar y Cabinet i ddechrau a châi unrhyw hawl ei dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Câi'r swyddi cadeiryddion a oedd yn weddill wedyn eu dyrannu i grwpiau nad oedd ganddynt sedd ar y Cabinet, gan dalgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf.

Cynigiodd y Cynghorydd Roberts y canlynol, ac eiliodd y Cynghorydd Carolyn Thomas.

| **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu** | **Grŵp i Ddewis Cadeirydd** |
|---|---|
| Cymuned a Menter | Llafur (Cynghorydd Ian Dunbar) |
| Addysg ac Ieuenctid | Llafur (Cynghorydd David Healey) |
| Adnoddau Corfforaethol | Ceidwadwyr |
| Yr Amgylchedd | Annibynnol Newydd |
| Newid Sefydliadol | Cynghrair Annibynnol |
| Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. | Democratiaid Rhyddfrydol (cyfnewid ag Annibynnol) |

O'i roi i bleidlais, fe'i derbyniwyd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau canlynol (gan nodi unrhyw gyfyngiadau ar bwy sy'n gymwys):

- Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd – Cynghorydd Aaron Shotton
- Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd – Cynghorydd Ted Palmer
- Pwyllgor Trwyddedu – Cynghorydd Tony Sharps
- Pwyllgor Cynllunio – Cynghorydd David Wisinger

(b) Y dylai'r Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu benodi eu Cadeiryddion eu hunain o blith yr aelodaeth; ac

(c) Y dylid dyrannu i'r grwpiau canlynol swydd cadeirydd ar y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel yr amlinellir:

| | | |
|---|---|---|
| Cymuned a Menter | - | Grŵp Llafur |
| Adnoddau Corfforaethol | - | Grŵp Ceidwadwyr |
| Addysg ac Ieuenctid | - | Grŵp Llafur |
| Yr Amgylchedd | - | Grŵp Annibynnol Newydd |
| Newid Sefydliadol | - | Grŵp y Cynghrair Annibynnol |
| Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. | - | Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol |

**(vi) <u>Swyddogaethau Dewis Lleol</u>**

Eglurodd y Prif Swyddog fod gofyn i'r Cyngor gytuno ar y cyfryw ran o'r Cynllun Dirprwyo ag y barna'r Cyngor y dylai'r Cyngor gytuno arni. Roedd hyn yn ymwneud â'r swyddogaethau dewis lleol y gallai naill ai'r Cyngor benderfynu arnynt neu'r Cabinet a/neu ei ddirprwyo i swyddogion.

Cynigiodd y Cynghorydd Roberts y dylid cymeradwyo bod y swyddogaethau Dewis Lleol presennol yn cael eu cadarnhau, ac fe'i heiliwyd yn briodol.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Cymeradwyo'r swyddogaethau Dewis Lleol fel y'u nodir yn y Cyfansoddiad.

**(vii) <u>Enwebiadau i Gyrff Mewnol</u>**

Eglurodd y Prif Swyddog fod y Cynllun Dirprwyo presennol yn darparu ar gyfer Pwyllgor Penodiadau i swyddogion haen gyntaf ac ail haen, a fydd yn cynnwys saith Aelod. Nid pwyllgor sefydlog mo hwn ac fe'i cynullwyd pan fo angen drwy geisio enwebiadau gan Arweinyddion Grwpiau. Argymhellwyd y dylai strwythur y Pwyllgor barhau, fel y nodir yn yr adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Chris Bithell y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad, ac eiliodd y Cynghorydd Ian Roberts.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Cymeradwyo strwythur y Pwyllgor Penodiadau.

**(viii) <u>Pwyllgor Safonau a Phenodiadau i Gyrff Allanol</u>**

Eglurodd y Prif Swyddog gyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor Safonau, a gofynnwyd i'r Aelodau nodi hyn, ochr yn ochr â'r Aelodau a benodir i Gyrff Allanol ar gyfer tymor llawn y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd Roberts y ddau argymhelliad ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Bithell.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi cyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor Safonau; a

(b) Bod y Cyngor yn nodi bod enwebeion i Gyrff Allanol wedi cael eu penodi ar gyfer tymor llawn y Cyngor ynghyd â phŵer y Prif Weithredwr i amrywio'r enwebiadau hynny (o ymgynghori ag Arweinyddion Grwpiau).

## 10. AELODAU ANNIBYNNOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad ar aelodaeth y Pwyllgor Safonau oherwydd bod tymor dau o'r aelodau annibynnol yn eu swydd wedi dod i ben yn ddiweddar. Roedd y ddau aelod yn gymwys i gael eu hail-benodi am ail dymor a chydnabuwyd eu cyfraniadau gwerthfawr i'r Pwyllgor. Tra bo Phillipa Earlam yn barod i wasanaethu eto, awgrymwyd y dylid anfon llythyr o ddiolch at Edward Hughes a oedd yn dymuno camu i lawr.

Amlinellodd y Prif Swyddog y rheolau ar benodi aelodau annibynnol a dywedodd y byddai proses recriwtio ar y cyd bosibl â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o fudd.

Wrth groesawu cyfraniadau aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, cynigiodd y Cynghorydd Paul Johnson yr argymhellion yn yr adroddiad ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Woolley.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Cyngor yn ailbenodi Phillipa Ann Earlam i'r Pwyllgor Safonau am bedair blynedd ac yn hysbysebu'r swydd wag a oedd ar ôl ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; a

(b) Bod Cadeirydd y Cyngor yn ysgrifennu at Edward Hughes i ddiolch iddo am ei waith caled ar y Pwyllgor yn ystod ei dymor.

## 11. RHESTR O'R CYFARFODYDD

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y rhestr o'r cyfarfodydd ar gyfer 2019/20 ar ôl ymgynghori. Er y gwnaed pob ymdrech i osgoi cyd-drawiad â chyfarfodydd eraill, awgrymodd y dylid symud cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol ar 21 Hydref i 28 Hydref rhag iddo gyd-daro â chyfarfod o'r Awdurdod Tân. Awgrymodd hefyd y dylid symud y Cyfarfod blynyddol (AGM) i 5 Mai 2020 i ganiatáu amser ar ôl yr Ŵyl Banc.

Ar y pwynt diwethaf, cytunodd y Prif Weithredwr ag awgrym y Cynghorydd Mike Peers y dylid symud y Cyfarfod blynyddol i 7 Mai 2020 a bod cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn cael ei aildrefnu.

Gofynnodd y Cynghorydd David Healey i'r Rhestr gynnwys cydgyfarfod rhwng Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid, a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, er mwyn ystyried eitemau a oedd yn rhychwantu cylch gorchwyl y ddau.

Awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai Cadeiryddion y ddau Bwyllgor gytuno ar amlder y cyfryw gyd-gyfarfodydd ar ôl i'r penodiadau gael eu gwneud.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r rhestr ddrafft o'r cyfarfodydd ar gyfer 2019/20, yn amodol ar y newidiadau arfaethedig.

## 12. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD A OEDD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg ac 16 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.10pm)

……………………………….
**Cadeirydd**